Hysbysiad Preifatrwydd Prosiect Ffenics Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru a'r 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru strategaethau ar waith sydd yn gosod gweledigaeth a chyfarwyddyd ar gyfer darparu gweithgareddau ymyrryd i blant a phobl ifanc. Bydd y gweithgareddau hyn yn helpu pobl ifanc i fod yn iach, cadw'n ddiogel, mwynhau a llwyddo, gwneud cyfraniad cadarnhaol a chyflawni lles economaidd, gan roi ystyriaeth i faterion yn ymwneud ag ethnigrwydd, anabledd a rhyw.

Un o'r ymyraethau a gynigir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) ydi'r Cwrs Ffenics. Rydym yn gobeithio dod â dylanwad bositif i fywydau'r bobl ifanc gyda'r nod o fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu wynebu, sydd yn amrywio o ddiffyg hunan barch a hyder i ymddygiad gwrth-gymdeithasol a/neu broblemau yn ymwneud â thân.

Rydym yn casglu a chadw'r wybodaeth ganlynol;

- Manylion personol y myfyriwr(enw, cyfeiriad, lluniau, dyddiad geni,)
- Gwybodaeth bersonol rhiant/gwarchodwr y cadét (enw, cyfeiriad, manylion cyswllt);
- Gwybodaeth bersonol am nodweddion (rhyw, ethnigrwydd, anabledd);
- Gwybodaeth berthnasol (gwybodaeth am yr atgyfeiriad a manylion yr ymyrraeth a gynigwyd);
- Anghenion addysg arbennig a gwybodaeth am ymddygiad y myfyriwr;
- Ffotograffau/ffilm o'r myfyrwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen ymyrraeth;
- CCTV wrth gael eu cludo yn un o gerbydau GTAGC.

Rydym yn defnyddio gwybodaeth/data'r person ifanc i;

- Gofnodi a gwerthuso ein gwaith;
- Casglu ystadegau a fydd yn helpu gyda phenderfyniadau am y modd yr ydym yn gwella diogelwch a chefnogi datblygiad ein staff ;
- Eich helpu i gysylltu gyda gwasanaethau eraill a all fod o fudd i chi neu wella'ch diogelwch.

Delweddau

Ffotograffau/ffilm/CCTV o'r person ifanc sydd wedi bod yn rhan o raglen ymyrryd ar gyfer y dibenion canlynol;

- Gwefan GTAGC, deunyddiau wedi eu hargraffu, cyflwyniadau, yn gyhoeddus, ar gyfryngau cymdeithasol, Ymgyrchoedd Cadetiaid Tân Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub;
- Sicrhau diogelwch staff a myfyrwyr GTAGC wrth deithio yng ngherbydau GTAGC.

Ein Sail Cyfreithiol

Mae Deddf y Gwasanaeth Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i GTAGC ddarparu cyngor diogelwch tân , ac mae'r Prosiect Ffenics yn rhan o'n gwaith ataliol Diogelwch Cymunedol. I alluogi i berson ifanc fod yn rhan o'r rhaglen addysgu mae'n hanfodol bod GTAGC yn casglu a defnyddio data (ar wahân i ffotograffau neu ffilm o'r gweithgareddau y maent yn eu cwblhau ar y cwrs) i gyflawni ei oblygiadau o dan y Ddeddf. Byddwn yn

prosesu ffotograffau neu ffilm o'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cwblhau ar gwrs dim ond gyda chaniatâd eglur y rhiant neu warchodwr.

Rhannu Gwybodaeth

Mae gennym gyfrifoldeb dros hybu llesiant cymdeithasol ac atal niwed. I sicrhau eich bod yn derbyn y gwasanaethau perthnasol a'n bod n gwella ein gwasanaethau ni, rydym yn aml iawn yn gweithio gydag awdurdodau, asiantaethau a phartneriaid eraill gan gynnwys:

- Sefydliadau cymunedol;
- Gwasanaethu cymdeithasol ac addysgol y cyngor;
- Heddlu a gwasanaethau brys eraill;
- Gwasanaethau iechyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol heb eich caniatâd chi a byddwch yn cael gwybod ar adeg yr atgyfeiriad. Fodd bynnag, mae rhai achosion lle gallwn rannu eich manylion personol heb eich caniatâd chi h.y. os oes gennym ddyletswydd gyfreithiol neu bŵer i rannu'r wybodaeth gyda chyrff statudol eraill os ystyrir bod lles y cyhoedd yn bwysicach na chyfrinachedd bersonol ac os oes perygl i chi neu eraill. Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail achosion unigol.

Storio'r wybodaeth

Mae'r holl wybodaeth electronig berthnasol, gan gynnwys ffilm neu ffotograffau, yn cael ei gasglu a'i gadw ar gronfeydd sydd wedi eu hamddiffyn gyda chyfrinair neu mewn storfeydd diogel eraill fel sy'n addas ac maent yn amodol i reolaethau a pholisïau diogelu gwybodaeth GTAGC.

Am faint fydd yn cael ei gadw?

Bydd yr wybodaeth yn cael ei gadw ar y gronfa ddata am gyfnod amhenodol rhag ofn bod ei angen yn ffurfiol ar gais un o'n asiantaethau partner. Bydd yr holl wybodaeth papur a ffurflenni yn cael eu rhwygo'n ddiogel ymhen 30 diwrnod o ddiwedd dyddiad y cwrs.

Bydd ffotograffau/ffilm o fyfyrwyr yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r cwrs yn cael eu cadw'n ddiogel am 10 mlynedd fel cofnod o'r rhai a fynychodd y rhaglen ymyrryd, ac wedi hyn byddant yn cael eu gwaredu'n ddiogel.

Bydd y delweddau CCTV yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae mesurau rheoli mynediad llym ar waith, ac nid fyddant yn cael eu gwylio oni bai bod angen gwneud hynny ar gyfer ymchwilio i achos neu ddigwyddiad penodol. Mae'r cyfrwng lle cedwir y delweddau yn cael ei drosysgrifo fel mater o drefn gyda defnydd beunyddiol.